

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig Croen a Laser The Grove,
Abertawe

Dyddiad arolygu: 09 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	19
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Croen a Laser The Grove ar 09 Mawrth 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd gan Glinig Croen a Laser The Grove brosesau ar waith er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau Golau Pwls Dwys (IPL) a laser.

Gallai cleifion gynnal eu preifatrwydd a'u hurddas yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd y staff clinigol yn meddu ar y sgiliau gofynnol i'w helpu i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau, safonau a chanllawiau arfer gorau cyfredol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd nodiadau a chofnodion cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel
- Roedd y clinig yn ymrwymedig i wella gwasanaethau ac yn mynd ati i geisio adborth gan gleifion am eu profiadau
- Roedd y peiriannau IPL/laser wedi cael eu gwasanaethu a'u calibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen dogfennu'r profion wythnosol a gynhelir ar y larwm tân
- Rhaid cynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy ar ddyfeisiau trydanol
- Mae angen i'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig gynnwys pob un o weithredwyr y peiriannau IPL/laser

- Rhaid i amserlenni glanhau gael eu llunio a'u cynnal
- Rhaid i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant ar ddiogelu sy'n briodol i'w rôl
- Rhaid i'r polisi recriwtio amlinellu'r gwiriadau cyn cyflogaeth a gynhelir ar gyfer aelodau newydd o'r staff.

Nodwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol sy'n rhan o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011:

- Rheoliad 21(2)(d) o ran addasrwydd gweithwyr – nid oedd un o weithredwyr y peiriannau IPL/laser wedi cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae hwn fater difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Clinig Croen a Laser The Grove wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol i ddarparu triniaethau IPS a laser yn 117 Glanmor Road, Uplands, Abertawe, SA2 0RN.

Mae'r clinig yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig¹ a gefnogir gan dîm bach o bedwar aelod o staff, yn cynnwys dau sy'n gweithredu'r peiriannau IPL/laser.

Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 27 Medi 2018 ac mae'n darparu amrywiaeth o driniaethau i gleifion dros 18 oed, gan gynnwys:

- Gwaredu tatŵau
- Gwaredu gwallt
- Ailwynebu ac adfywio'r croen
- Gwaredu tagiau croen/briwiau
- Gwaredu ffwngws ewinedd
- Trawsblannu unedau ffoliglaidd.

¹ Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rheolwr sefydliad.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig a bod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth.

Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a'r driniaeth a gafwyd yn y clinig.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; nododd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi cael nifer o driniaethau gwahanol ac rwyf bob amser wedi cael cyngor a gwasanaeth gwych. Mae aelodau'r tîm yn hawdd mynd atynt a bob amser yn ymateb yn brydlon i unrhyw gwestiynau sydd gennyf, p'un ai'n bersonol neu dros yr e-bost/Facebook”

“Rwy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth rwyf wedi'i gael ym mhob un o'm hapwyntiadau. Mae pob aelod o'r staff yn gweithredu'n effeithlon ac yn gwrtais iawn. Mae lleoliad yr apwyntiadau yn gyfforddus ac yn lân ac rwyf bob amser wedi cael fy nhrin mewn ffordd ardderchog”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Rhaid i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol a rhaid iddynt lofnodi cerdyn cofnodion ym mhob sesiwn driniaeth

ddilyinol er mwyn cadarnhau a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol. Mae hyn yn dilyn canllawiau arferion gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol a chardiau cofnodion wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod hefyd wedi cwblhau ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun wedi cadarnhau ei hanes meddygol, cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn breifat er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed. Gall cleifion newid mewn ystafell driniaeth wag os oes angen, a chânt dywelion er mwyn helpu i gynnal eu hurddas. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac roeddent yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster bob amser yn ystod eu hapwyntiadau.

Soniodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gall cleifion gael aelod o'r teulu, ffrind neu hebryngwr ffurfiol yn bresennol i'w cefnogi yn ystod ymgynghoriadau a sesiynau triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y caiff galluedd cleifion i gydsynio i driniaeth ei asesu a rhoddyd sicrwydd i ni y byddai cleifion yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar sail gwybodaeth ynglŷn â chydsynio i driniaeth. Caiff cleifion ymgynghoriad wyneb yn wyneb â gweithredwr y peiriant IPL/laser cyn cael triniaeth er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt, a'r manteision a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â phob triniaeth.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddynt a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn triniaeth; nododd un claf:

“Mae pob triniaeth rwyf wedi'i chael wedi bod yn dda iawn ac rwyf wedi cael esboniad trwyadl o bob un. Maent yn wych o ran sicrhau bod disgwyliadau o ran canlyniadau yn realistig”

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni cydsynio i driniaeth yng nghofnodion y cleifion a oedd wedi'u llofnodi ganddyn nhw eu hunain ac wedi'u cydlofnodi gan

weithredwr y peiriant IPL/laser. Nodwyd gennym fod hyn yn arfer dda. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod bob amser yn cael gwybod am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys.

Roedd canllaw i gleifion ar gael, a gwelsom ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Wrth edrych ar ddatganiad o ddiben y clinig² gwnaethom nodi bod angen iddo gael ei ddiweddarau er mwyn cynnwys y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r datganiad o ddiben gael ei ddiweddarau er mwyn cynnwys y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion.

Cynllunio a darparu gofal

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn triniaeth addas sy'n cael eu cwblhau ar gleifion er mwyn sicrhau bod y peiriant IPL/laser wedi'i osod yn ddiogel ac effeithiol o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Mae'n ofynnol i gleifion gael prawf clwt ar ran fach o'u croen cyn cael triniaeth, a chaiff y canlyniadau eu nodi yn eu cofnodion. Lle y bo'n briodol, cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod prawf clwt wedi'i gynnal cyn iddo gael triniaeth.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael cyngor ôl-ofal i sicrhau eu bod yn deall sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu cynnal i safon uchel ac yn unol â chanllawiau arferion gorau. Rhoddodd hyn sicrwydd i ni fod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu gan ystyried diogelwch, llesiant ac anghenion unigol y cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r clinig wedi'i lleoli ar brif ffordd ac mae lleoedd parcio ar gael ar y strydoedd gerllaw. Er bod rhai cyfleusterau wedi'u lleoli ar y llawr daear, mae'r ystafelloedd triniaeth IPS/laser wedi'u lleoli i lawr y grisiau ac felly nid yw'n hawdd i bobl sydd ag anawsterau symudedd eu cyrraedd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael gwybod am hyn pan fyddant yn cysylltu â'r clinig a'i fod wedi ei nodi'n glir hefyd ar wefan y clinig.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i geisio adborth gan gleifion fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd cardiau sylwadau ar gael y gallai cleifion eu cwblhau'n ddiennw. Gallai cleifion hefyd adael adolygiad o'u hymweliad mewn llyfr sylwadau a oedd ar gael yn yr ardal aros. Caiff cleifion hefyd eu hannog i gwblhau adolygiad ar-lein drwy gyfryngau cymdeithasol am eu profiad yn y clinig.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl sylwadau ac adolygiadau yn cael eu monitro'n rheolaidd, bod camau'n cael eu cymryd lle bo angen a'u bod hefyd yn cael eu trafod â'r staff.

Rhoddwyd sicrwydd i ni fod tryloywder y llyfr sylwadau a'r adolygiadau ar-lein yn sicrhau y rhoddir gwybod i'r cleifion presennol a darpar gleifion am ansawdd y gofal a ddarperir gan y clinig.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Rhodddwyd sicrwydd i ni fod cleifion yn cael gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf, a oedd yn cael ei ddogfennu mewn cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da ac roedd y peiriannau IPL/laser wedi'u gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Roedd angen gwelliannau er mwyn helpu i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r safle a sicrhau bod y clinig yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r safle. Gwelsom dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau o wifrau trydanol a diogelwch nwy wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Fodd bynnag, ni allai'r rheolwr cofrestredig gadarnhau pryd y cafodd Profion Dyfeisiau Cludadwy eu cynnal yn y clinig ddiwethaf. Argymhellwn fod profion yn cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiad risg tân o'r safle wedi'i gynnal yn ddiweddar er mwyn lleihau peryglon a risgiau tân posibl a helpu i ddarparu digon o ddiogelwch pe bai tân. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân a gwelsom dystiolaeth bod y diffoddwyr tân ym mhob rhan o'r adeilad yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir. Fodd bynnag, bu ychydig o ddryswch yn ystod yr arolygiad wrth i ni sylwi bod y cofnodion yn dangos bod dau o'r diffoddwyr tân dŵr heb eu gwasanaethu yn ystod yr archwiliad cynnal a chadw diwethaf. Argymhellwn y dylai'r clinig ofyn i'r cwmni tân arbenigol egluro hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod profion wythnosol yn cael eu cynnal ar y larwm tân ond nad ydynt yn cael eu dogfennu. Rhaid i'r clinig sicrhau bod y profion wythnosol a gynhelir ar y larwm tân yn cael eu dogfennu

yn y dyfodol er mwyn cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau priodol i'w dilyn mewn argyfwng, megis pe bai claf yn llewygu, a gwelsom fod nifer o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf addas i drin mân anafiadau. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd popeth a oedd wedi'i gynnwys ynddo o fewn ei ddyddiad dod i ben ac felly'n addas at y diben.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid cynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy ar ddyfeisiau trydanol ym mhob rhan o'r adeilad.

Rhaid i'r practis ofyn i'r cwmni tân arbenigol am eglurhad er mwyn canfod a yw'r ddau ddiffoddwr tân dŵr yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae angen dogfennu'r profion wythnosol a gynhelir ar y larwm tân.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da a bod yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion am lendid y clinig; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau a oedd ar waith yn y clinig, a oedd yn cynnwys cynnal hylendid dwylo da a glanhau'r ystafelloedd triniaeth a'r cyfarpar IPL/laser rhwng sesiynau. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheini sydd wedi'u hamlinellu ym mholisi rheoli heintiau'r clinig. Fodd bynnag, nid oedd y tasgau glanhau a oedd yn cael eu cyflawni ar y safle yn cael eu dogfennu.

Argymhellwn y dylai amserlenni glanhau gael eu llunio a'u cynnal er mwyn dangos y tasgau glanhau a gyflawnwyd ar y safle, ac y dylai'r broses newydd hon gael ei nodi mewn fersiwn ddiwygiedig o'r polisi rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i amserlenni glanhau gael eu llunio a'u cynnal a rhaid i'r polisi rheoli heintiau gael ei ddiweddarau er mwyn dogfennu'r broses newydd hon.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru drwy drin cleifion dros 18 oed yn unig. Ni chaniateir i unrhyw blant fod ar y safle er lles eu diogelwch eu hunain.

Gwelsom fod polisi diogelu oedolion sy'n agored i niwed ar waith, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion lleol perthnasol er mwyn sicrhau y gellir rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn briodol ac yn amserol.

Gwelsom dystiolaeth bod rhai o'r staff yn y clinig wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu i'w helpu i nodi problemau a gweithredu arnynt er mwyn helpu i ddiogelu unrhyw oedolion sy'n agored i niwed a all wynebu risg. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn y clinig yn cael hyfforddiant ar ddiogelu sy'n briodol i'w rôl er mwyn helpu i sicrhau lles a diogelwch oedolion sy'n agored i niwed yn llawn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant ar ddiogelu sy'n briodol i'w rôl.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom fwrw golwg dros y trefniadau a oedd ar waith yn y clinig i ddiogelu cleifion wrth gael triniaeth. Roedd y peiriannau IPL/laser wedi'u gwasanaethu a'u calibradu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl. Hefyd, roedd protocolau triniaeth feddygol ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau y caiff triniaethau eu rhoi mewn ffordd ddiogel i gleifion, ac roeddent wedi cael eu goruchwyllo gan ymarferwyr meddygol arbenigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nodwyd gennym fod y protocol ar gyfer y peiriant laser Gentlemax wedi dod i ben yn ddiweddar. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r protocol gael ei adolygu a'i ailgyflwyno gan ymarferydd meddygol arbenigol a'i ddiweddarau os bydd angen.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cyngor arbenigol ar y defnydd gweithredol o'r peiriannau IPL/laser o ddydd i ddydd. Gwelsom fod rheolau lleol³ ar waith a oedd wedi'u hadolygu gan y Cynghorydd yn unol ag amodau cofrestrriad y clinig ag AGIC. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig yn y rheolau lleol yn gyflawn; rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob un o weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn llofnodi'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig er mwyn dangos eu bod yn cytuno i ddilyn y rheolau lleol wrth drin cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r protocol triniaeth feddygol ar gyfer y peiriant laser Gentlemax gael ei adolygu a'i ailgyflwyno gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Rhaid i bob un o weithredwyr y peiriannau IPL/laser lofnodi'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig yn y rheolau lleol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod holl weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)⁴ i ddefnyddio peiriannau IPL/laser yn gymwys gan eu bod wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁵ a hyfforddiant gan wneuthurwyr peiriannau IPL/laser ar sut i'w gweithredu'n ddiogel.

Roedd sbectol amddiffynnol ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriannau IPL/laser. Gwelsom fod y sbectolau a'r gorchuddion llygaid yn cael eu cadw mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu harchwilio'n ddyddiol i weld a oeddent wedi'u difrodi.

³ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

⁴ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices](#)

⁵ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau IPL/laser yn ddiogel.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon diogelwch a gymerir pan fydd triniaethau'n mynd rhagddynt; mae arwydd y tu allan i bob ystafell driniaeth yn rhybuddio bod y peiriant IPL/laser yn cael ei ddefnyddio a chaiff yr ystafelloedd eu cloi er mwyn atal unrhyw unigolion anawdurdodedig rhag dod i mewn yn ystod triniaethau. Dywedwyd wrthym fod allwedd i pob peiriant IPL/laser yn cael eu cadw dan glo ar ôl pob apwyntiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel pan na chânt eu defnyddio.

Gwelsom fod asesiad risg amgylcheddol wedi cael ei gynnal pan agorwyd y clinig yn 2018 er mwyn nodi a lleihau unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriannau laser ac amgylchedd pob ystafell driniaeth. Cynhaliwyd yr asesiad hwn cyn i'r peiriant IPL gael ei osod yn y clinig ac argymhellwn y dylid adolygu'r asesiad risg er mwyn rhoi sicrwydd bod yr holl risgiau posibl wedi'u nodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid adolygu'r asesiad risg amgylcheddol blaenorol er mwyn cynnwys unrhyw risgiau posibl sy'n deillio o osod y peiriant IPL.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod gan y clinig systemau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, gwnaethom nodi yn gynharach yn yr adroddiad fod cleifion yn cael cyfle i roi adborth ar eu profiadau yn y clinig. Hefyd, esboniodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ar ôl y driniaeth a thrafodaethau â'r cleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal unigol gwell drwy gydol triniaeth.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod holl weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn cael eu hannog i fynd i gynadleddau proffesiynol neu gymryd rhan mewn gweminarau ar bynciau perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a'u helpu i ddarparu gofal gwell i gleifion.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw yn unol ag arferion gorau a chanllawiau proffesiynol, a'u bod yn helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd da i gleifion. Roedd nodiadau cleifion yn fanwl ac o ansawdd da, ac roedd cofrestr gynhwysfawr o driniaeth cleifion ar waith ar gyfer y peiriannau IPL/laser.

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur cleifion yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad iddynt heb awdurdod.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ymrwymiad i gefnogi'r staff sy'n gweithio yn y clinig.

Byddai'r weithdrefn gwyno sydd ar waith yn y clinig yn sicrhau y gellid ymdrin â chwynion cleifion yn effeithiol ac yn amserol.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith ond rhaid i'r clinig fonitro a chadarnhau bod y staff wedi'u darllen er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau.

Rhaid i'r clinig wneud mwy i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o'r staff yn addas i weithio yn y clinig drwy gynnal gwiriadau cyn cyflogaeth addas.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r rheolau a'r canllawiau y dylai'r staff eu dilyn yn ystod eu cyflogaeth. Gwelsom fod y polisiâu wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y rheolwr cofrestredig yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, ni allem fod yn siŵr bod pob aelod o'r staff wedi darllen pob polisi er mwyn deall ei gyfrifoldebau. Rydym yn argymhell y dylai'r clinig roi system ar waith i fonitro a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi ac unrhyw ddiweddariadau dilynol.

Gwelsom fod gan y clinig dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn ei amddiffyn rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i fonitro a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi a gweithdrefn sydd ar waith yn y clinig.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno glir a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom y byddai'n galluogi'r staff i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn amserol.

Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y canllaw i gleifion a gwnaethom argymhell yn gynharach yn yr adroddiad y dylid cynnwys crynodeb yn y datganiad o ddiben hefyd.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw bryderon a chwynion ffurfiol neu anffurfiol a gafwyd gan gleifion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rhoddwyd sicrwydd i ni fod gan weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn y clinig y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Cynhelir cyfarfodydd staff misol er mwyn trafod unrhyw broblemau posibl, nodi gwersi a ddysgwyd a rhoi cyfle i'r staff godi unrhyw faterion a allai fod ganddynt.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod sesiynau dal i fyny yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda phob aelod o'r staff yn hytrach nag arfarniadau ffurfiol. Mae'r sesiynau hyn yn galluogi'r staff i gael adborth ar eu perfformiad a nodi unrhyw gyfleoedd hyfforddi yn y dyfodol. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig ei bod yn arfer dda i ddogfennu pob sesiwn a rhannu'r cofnod hwnnw â'r aelod o'r staff er mwyn sicrhau tryloywder a lleihau'r risg o gamddealltwriaeth.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar y polisi recriwtio a oedd yn nodi'r weithdrefn y dylid ei dilyn wrth recriwtio unrhyw aelodau newydd o staff. Nid oedd y polisi yn nodi'r gwiriadau cyn cyflogi priodol y byddai'r clinig yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod unrhyw aelod newydd o staff yn meddu ar y cymwysterau addas a'i fod yn addas i weithio yn y clinig. Trafodwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig, a gadarnhaodd fod gweithredwr peiriannau IPL/laser newydd wedi cael ei

gyflogi'n ddiweddar ar sail dau eirda gan ei gyflogwr blaenorol yn unig. Byddai AGIC yn disgwyl i bob un o'r rhai sy'n gweithredu'r peiriannau IPL/laser feddu ar dystysgrif fanwl addas gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁶ fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau er mwyn profi eu bod yn addas i weithio gyda chleifion heb unrhyw oruchwyliaeth. Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â hyn o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol a manylir arnynt yn Atodiad A.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses sefydlu briodol sydd ar waith yn y clinig i helpu aelodau newydd o staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u rôl newydd. Roedd y broses honno'n cynnwys cyfnod o gysgodi, hyfforddiant a goruchwyliaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r polisi recriwtio gael ei ddiweddarau er mwyn amlinellu'r gwiriadau cyn cyflogi a gynhaliwyd er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o staff yn addas i weithio yn y clinig.

⁶ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Ni chaiff y gwasanaeth unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig am dystiolaeth i ddangos bod y gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi cael eu cynnal ar weithredwyr y peiriannau IPL/laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd un o weithredwyr y peiriannau IPL/laser erioed wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i fod wedi cael ei gyflogi ar sail dau eirda gan ei gyflogwr blaenorol.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y gweithredwr yn addas i weithio yn y clinig a bod lles a diogelwch cleifion yn cael eu diogelu.</p>	<p>Fe wnaethom godi ein pryderon gyda'r rheolwr cofrestredig ar unwaith yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n trefnu i wiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei gynnal ar unwaith ar y gweithredwr dan sylw. Hefyd, cytunodd y rheolwr cofrestredig i oruchwylio'r gweithredwr yn ystod triniaethau nes y byddai tystysgrif addas wedi dod i law.</p>

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Croen a Laser The Grove

Dyddiad arolygu: 09 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r datganiad o ddiben gael ei ddiweddarau er mwyn cynnwys y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 6	Roeddwn ar ddeall mai dim ond yn y canllaw i gleifion yr oedd angen cynnwys y trefniadau hyn. Rwyf bellach wedi diweddarau'r datganiad o ddiben i gynnwys y trefniadau hyn.	Jodie Grove	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid cynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy ar ddyfeisiau trydanol ym mhob rhan o'r	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar	Cwblhawyd ar 10 Mawrth.	Jodie Grove	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
adeilad.	gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 12			
Rhaid i'r practis ofyn i'r cwmni tân arbenigol am eglurhad er mwyn canfod a yw'r ddau ddiffoddwr tân dŵr yn ddiogel i'w defnyddio.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26	Siarad â PES sy'n trefnu ein systemau diogelwch tân. Cafodd rhai newydd eu gosod yn eu lle ar 30 Ebrill 2020.	Jodie Grove	Cwblhawyd
Mae angen mynd ati i ddogfennu'r profion wythnosol a gynhelir ar y larwm tân yn y clinig.	Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005	Prynu cofnodlyfr diogelwch tân er mwyn cofnodi'r profion.	Jodie Grove	Cwblhawyd
Rhaid i amserlenni glanhau gael eu llunio a'u cynnal a rhaid i'r polisi rheoli heintiau gael ei ddiweddarau er mwyn dogfennu'r broses newydd hon.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9(1n)	Rhoi cofnodion glanhau ar gefn pob drws i'r staff eu llofnodi.	Jodie Grove	Cwblhawyd
Rhaid i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant ar ddiogelu sy'n briodol i'w rôl.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer	Cofrestru'r staff ar gyfer hyfforddiant priodol.	Jodie Grove	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 11			
Rhaid i'r protocol triniaeth feddygol ar gyfer y peiriant laser Gentlemax gael ei adolygu a'i ailgyflwyno gan ymarferydd meddygol arbenigol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 45)	Cysylltu â'r cyflenwr, Candela, i gael protocol diwygiedig newydd.	Jodie Grove	3 mis
Rhaid i bob un o weithredwyr y peiriannau IPL/laser lofnodi'r gofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig yn y rheolau lleol.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 16	Sicrhau bod y staff yn ei llofnodi.	Jodie Grove	Cwblhawyd
Rhaid adolygu'r asesiad risg amgylcheddol blaenorol er mwyn cynnwys unrhyw risgiau posibl sy'n deillio o osod y peiriant IPL.		Cysylltu â Simon Wharmby, Cyngorydd Diogelu rhag Laserau, i ddiweddarau'r asesiad risg.	Jodie Grove	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i fonitro a sicrhau bod pob aelod o'r	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar	Neilltuo amser i'r staff ddarllen yr holl bolisiau a gweithdrefnau a llofnodi i	Jodie Grove	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
staff wedi darllen a deall pob polisi a gweithdrefn sydd ar waith yn y clinig.	gyfer Gwasanaethau Gofal lechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 24	gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Staff i lofnodi bob tro y bydd newid i unrhyw un o'r uchod.		
Rhaid i'r polisi recriwtio gael ei ddiweddarau er mwyn amlinellu'r gwiriadau cyn cyflogi a gynhaliwyd er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o staff yn addas i weithio yn y clinig.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9)	Yn benodol, dylai'r polisi recriwtio diwygiedig gynnwys gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod newydd o staff.	Jodie Grove	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jodie Grove

Teitl swydd: RN INP Perchennog / Rheolwr y Gwasanaeth

Dyddiad: 10/05/2020